## DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981

## MAP A DATGANIAD DIFFINIOLCYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

## YCHWANEGU LLWYBR O LECYN GER GAMEKEEPER'S LODGE, PEN-Y-FAI, I LWYBR 5 NEWCASTLE HIGHER

## GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF 1 2026

Llunnir y Gorchymyn hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 53(2)(b) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") oherwydd mae'n ymddangos i'r awdurdod hwnnw bod angen diwygio Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i ddigwyddiad a bennir yn Adran 53(3)(b) yn y Ddeddf, sef diwedd (mewn perthynas ag unrhyw ffordd yn yr ardal y mae'r map yn ymwneud â hi) unrhyw gyfnod yn y fath fodd y bydd mwynhad y cyhoedd o'r ffordd yn ystod y cyfnod hwnnw yn codi rhagdybiaeth bod y ffordd wedi'i phennu'n llwybr cyhoeddus.

Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys y tir y mae'r gorchymyn yn ymwneud ag ef. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy hyn yn gorchymyn y canlynol:

1. At ddibenion y Gorchymyn hwn, y dyddiad perthnasol yw dyddiad llunio'r Gorchymyn.

2. Bydd Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr yn cael eu diwygio fel y disgrifir yn Rhan I a Rhan II yn yr Atodlen a chânt eu dangos ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn.

3. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y'i cadarnheir a gellir cyfeirio ato fel a ganlyn: Gorchymyn Addasu Map Diffiniol Rhif 1 2026 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch Ychwanegu llwybr o lecyn ger Gamekeeper's Lodge, Pen-y-fai, i Lwybr Troed 5 Newcastle Higher.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )
CYNGOR BWRDEISTREF ar y ddogfen )
ar y diwrnod o 2026 )
ym mhresenoldeb:-

Llofnodwr Awdurdodedig

## ATODLEN
## RHAN I

### Addasu Map Diffiniol
### Disgrifiad o'r llwybr troed i'w ychwanegu

Mae'r llwybr troed yn cychwyn ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 89128176) wrth y Giât Mochyn a leolir 38 metr i'r de-orllewin o gornel dde-ddwyreiniol yr eiddo a elwir yn Gamekeepers Cottage ac yn parhau i gyfeiriad y gorllewin gogledd orllewin am tua 15 metr i Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 89118176) ble mae'n troi ac yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd gerllaw Gamekeeper's Lodge am tua 73 metr i Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 89118184). Yna, mae'r llwybr yn croesi'r hen drac mynediad i Court Colman i gyfeiriad y gogledd gogledd--orllewin ac yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 9 metr i'r giât mochyn ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 89118150) ac yn parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am 161 metr arall tua'r giât ym Mhwynt E (Cyfeirnod Grid SS 89188199) gan ddod i ben wrth ei gyffordd â Llwybr Troed 5 Newcastle Higher. Bydd cyfanswm hyd y llwybr troed yn 258 metr fwy neu lai.

Mae lled y llwybr troed yn 1.2 metr ac fe'i dangosir rhwng pwyntiau A-B-C-D-E ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

Lled – 1.2 metr
Hyd – 258 metr

## RHAN II

### ADDASU DATGANIAD DIFFINIOL
### AMRYWIO MANYLION LLWYBR NEU FFORDD


**Ychwanegu'r Llwybr Troed at y Datganiad Diffiniol fel a ganlyn:**

LLWYBR TROED

Mae'r llwybr troed yn cychwyn ar Gyfeirnod Grid SS 89128176 wrth y Giât Mochyn a leolir 38 metr i'r de-orllewin o gornel dde-ddwyreiniol yr eiddo a elwir yn Gamekeepers Cottage ac yn parhau i gyfeiriad y gorllewin gogledd orllewin am tua 15 metr i Gyfeirnod Grid SS 89118176 ble mae'n troi ac yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd gerllaw Gamekeeper's Lodge am tua 73 metr i Gyfeirnod Grid SS 89118184. Yna, mae'r llwybr yn croesi'r hen drac mynediad i Court Colman i gyfeiriad y gogledd gogledd-orllewin ac yna i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am tua 9 metr i'r giât mochyn ar Gyfeirnod Grid SS 89118150 ac yn parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am oddeutu 161 metr arall tua'r giât ar Gyfeirnod Grid SS 89188199 gan ddod i ben wrth ei gyffordd â Llwybr Troed 5 Newcastle Higher Bydd cyfanswm hyd y llwybr troed yn 258 metr fwy neu lai.

Lled – 1.2 metr
Hyd – 258 metr

Cyfyngiadau – Ceir gatiau mochyn yng Nghyfeirnodau Grid SS 89128176 ac SS 89118150 a giât i gae yng Nghyfeirnod Grid SS 89188199.




Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

*Janine Nightingale*
*Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau*

Swyddfeydd Dinesig,
Stryd yr Angel,
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**
**YCHWANEGU LLWYBR O LECYN GER GAMEKEEPER'S LODGE, PEN-Y-FAI, I LWYBR 5 NEWCASTLE HIGHER**

**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL RHIF 1 2026**

N W E S

**Graddfa: 1:6000**
**Dyddiad: 09/02/2026**

**©Crown Copyright and database right 2025. Ordnance Survey AC0000851951. Use of this data is subject to terms and conditions.**

**©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2025. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951. Mae defnydd o’r data hwn yn ddarostyngedig i delerau ac amodau.**

HIG001-1099/A763/1/275